Cyfres Llanbedr | Ebrill, 1930 | Cyf. 30. Rhif 4.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y. Golygydd. Y. Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

Hanes Capeli'r Enwad—Cwmwrdu.
Gandhi.
Dr. J. Gwenogvryn Evans.
Gwerth Eisteddfod i Ddiwylliant.
Y Parch. Evan Lewis, Cilgwyn, Ceredigion.
Ein Pwlpudau Gwâg.
Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

YN AWR YN BAROD.

Gyrrwch archeb yn union am

Y LLYFR EMYNAU NEWYDD—

PERLAU MOLIANT

(SOLFFA)

CASGLIAD O EMYNAU A THONAU AT WASANAETH EGLWYSI UNDODAIDD CYMRU.

Prisiau :—

Lledr Hanner Rhwym, 4/6. | Lledr Llawn Rhwym, 5/6.

Lledr Morocco ac India Paper, 7/-.

Cludiad copiau unigol, 6ch. yn ychwanegol.

Derbynir archebion (*gyda blaendal*) oddiwrth Eglwysi a phersonau unigol yn awr. Anfoner at—

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

CHANNING HOUSE SCHOOL

HIGHGATE, LONDON, N.6.

Public School for Girls.

For Particulars apply to THE HEAD MISTRESS.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

CYFRES LLANBEDR. EBRILL, 1930. CYF. XXX. RHIF 4.

Hanes Capeli'r Enwad yng Nghymru.

CWMWRDU.

NI fedr undyn a fu yn ardal Cwmwrdu lai na galw i gôf wŷr mawr yr ardaloedd a bob tro yr af yma cofiaf am Domos Glyn Cothi a Gwilym Marles—ill daw wedi gadael eu dylanwad yn drwm ar Undodiaeth. Tomos Glyn Cothi ddaeth a Phriestley i Gymru a chredaf mai Gwilym Marles ddaeth a Martineau a Pharker yma. Safant felly fel y " cerrig gwynion " i nodi ffin dau gyfnod yn hanes y mudiad. Nid oes a fynnof a Gwilym heddiw ond ni fedraf beidio rhoi darn o lythyr a ysgrifennodd i'r YMOFYNNYDD (Ionor, 1854),—

> " Mae'r lle yn anwyl i mi fel y man y clywais y bregeth Undodaidd gyntaf yn fy mywyd pan nad oeddwn ond llanc 10 neu 11 oed ; mae'r testun, y pregethwr a'r gynulleidfa fel y ddoe yn fy nghof. Y diweddar Barch. P. Joseph oedd y pregethwr ; y testun, " Daionus yw yr Arglwydd i bawb ; a'i drugaredd sydd ar ei holl weithredoedd."

Pwy ddydd yr own yng Nghwmwrdu a cheisiwn ddychmygu ble yr eisteddai Gwilym—a pham y daeth yno. Tybed fod rhywbeth yn ei galon ieuanc yr adeg honno yn chwilio am y golau, pwy wyr ?

Ofer fy myfyrdod a throis i rodio ymhlith y beddau. Y maent wedi eu hanghofio ers tro. Ni welir yma neb yn wylo deigryn na phlannu blodeuyn ar fedd mwyach. Y mae'r capel a'r fynwent wedi eu gadael am dros chwarter canrif heb neb yn gofalu, a minnau a'm calon yn gwaedu yn dwedyd gyda Gwilym,—

"Heddwch i'w llwch ! A doed y pryd
Pan gaffwyf gyda mynwes iach
Ymweled weithiau â'r hen fro,
A rhoddi tro trwy'r fynwent fach ;
A chyd-addoli gyda'r llu
Yng Nghapel bychan Cwmwr Du."

Rhyw filltir fer o Wernogle ar yr hewl y sy'n arwain i Frechfa ar lecyn bychan tlws y saif Capel Cwmwrdu. Ni chodwyd mohono ond yn 1832 ac nid yw felly yn gant oed. (Rhwng cromfachau gobeithio y gwna'r Ymddiriedolwyr newydd osod y tŷ a'r fynwent yn gymen er cael Cwrdd Canmlwyddiant yn yr hen adeilad).

Nid oes felly iddo ef hanes diddorol ond ni wn i am fan mwy diddorol yng Nghymru na'r ardal hon yn hanes y mudiad Undodaidd oherwydd yn y gymydogaeth hon y bu Tomos Glyn Cothi yn pregethu Undodiaeth y tro cyntaf yng Nghymru.

Ganwyd Thomas Evans yng Nghapel Sant Silin, Brechfa, ar Fehefin 20, 1764, a mabwysiadodd enw afon ei ardal yn ei enw barddol "Tomos Glyn Cothi." Bu am ryw ysbaid ar y fferm ond buan dysgodd grefft ei dad o wehydd a pharhaodd wrth ei grefft mwy neu lai hyd ddiwedd ei oes oherwydd cawn yn adrodiad Wright (Mids. 1819),—

"For part of his time he (T.E.) is under the necessity of employing in the loom . . . . Cd. he be enabled to lay aside his business as a weaver entirely, I think his usefulness wd. be extended. I know of no man in Wales who seems so completely qualified to act as missionary as he is."

Ni wyddis sut y daeth i wybod am Briestley a Lindsey, ond gwyddys fod y Duc Grafton yn anfon Deg Punt y flwyddyn o rodd iddo. Yr oedd ardal Brechfa yn ardal Galfinaidd hyd y gwyddys. Nid oedd yn wiw iddo droi ei wyneb am Alltyplaca am na phregethid Priestley yno. Hwyrach mai trwy rhyw lyfrynnau y daeth i wybod am dano.

Gwyddom i Briestley gyhoeddi traethawd Collins ar "Ryddid ac Anghenraid neu Reidrwydd." O dderbyn y syniad hwn o reidrwydd ynghyd a'r gred mewn ewyllys rydd fe gilia'r angen am brynedigaeth. Y mae'n ddiddorol gwybod hefyd mai Priestley a roes fod i'r syniad am gynnydd yr hil ddynol at hapusrwydd a fedrid gael trwy ymdrech di-gynorthwy dyn ei hunan. Fe welir fod y syniad hwn yn torri ar draws y syniad poblogaidd ac uniongred o gwymp a dedwyddwch ynghadw i'r saint wedi eu gogoneddu

yn y nef. Y syniadau hyn oedd yn ennill calon Glyn Cothi ond odid. Eisoes yr oedd Priestley wedi gwrthod yr enedigaeth wyrthiol. Maentumiai eni Iesu yn Nazareth a'i fod wedi camsynied parthed ysbrydion aflan. Ar yr un pryd daliai afael yn y gwyrthiau ac yn nyddiadau ac awduraeth geidwadol Llyfrau'r Beibl. Bu dadl frwd rhyngtho a'r Esgob Horsley ac amddiffynnid Priestley gan Ddavid Jones, y Welsh Freeholder. Hwyrach fod y dadleuon hyn wedi dylanwadu mwy nag a feddyliwn. Beth bynnag yr oedd Priestley yn derbyn Materoliaeth y French Encyclopaedists ond yn cadw'i afael yn yr adgyfodiad. Hyn a barodd i Gastellhywel ganu iddo :—

Yma gorwedd wedi marw
Yn dra dethau mewn arch dderw
Esgyrn, 'menydd, gwaed, gwythennau
Corff ac enaid Doctor Priestley.

Nid yw'r pennill ond yn awgrymu yn gellweirus "fateroliaeth" cred Priestley. Gwyddys fod Tomos Glyn Cothi yn pregethu ag yntau tua ugain oed, a dywedir yn yr YMOFYNNYDD am Fai, 1852, ei ordeinio ym Mrechfa, Medi 11, 1794. Beth bynnag credir fod rhan o dŷ ei dad wedi ei drwyddedu iddo i bregethu ynddo tua 1786 ac ymhen rhyw ddeng mlynedd trwy help Lindsey ac eraill o Lunden codwyd "Tŷ Cwrdd Cwm Cothi," y capel cyntaf yng Nghymru wedi'i godi er addoli'r Un Duw—Y Tad. Canai Dafydd Amos am dano,—

"Hwn yw eu hathraw hyffol, sy'n barnu'n ansynwyrol
Nad oedd yr Iesu grasol ond dyn naturiol dwys."

Yn y Lewin's Mead MSS. fe geir dan Dachwedd, 1798, a hefyd 1799—1900 fod yr eglwys honno wedi gwneud grant i Thos. Evans, Brechfa.

Yr oedd Glyn Cothi yng ngharchar Caerfyrddin 1801—1803 am ganu cân a ystyrid yn anheyrngarol ,a diddorol ydyw un bill y sydd ar glawr am bâr o ddillad newydd iddo er iddo edrych yn respectable yn y *pilwri* (pillory).

Yn 1811 derbyniodd alwad i fugeilio hen eglwys Yr Hên Dŷ Cwrdd Aberdâr, lle y bu hyd derfyn ei oes. Ni wn i a ddiffoddodd y mudiad ym Mrechfa wedi ymadael ohono oddiyma. Ond yn hanes taith genhadol Wright—1816 (M.R. p. 683) ceir, "The meetings are held in a private house : the people are Unitarian Baptist. Mr. B. Davies, a poor man is their preacher."

Yn Llyfr Lewin's Mead eto fe geir Benj. Davies yn cael y grant bron yn rheolaidd o Dachwedd 1815 hyd Ragfyr, 1846. Yn hanes Cyrddau Chwarter Ystrad ar y 5 o Hydref, 1820, fe geir y Benjamin Davies hwn yn gwasanaethu yno, ond fe'i gelwid yn Benjamin Davies "o Llanfynydd."

I hen ardal Glyn Cothi a chymydogaeth Benjamin Davies yr aeth William Rees, a anwyd yng Nghastellnwel ger Llansteffan yn 1779 (circa). Perthynas ond odid i'r Parch. Josiah Rees, Gellionnen. Fe'i hordeiniwyd yn y Cilgwyn yn 1804 a bu ym Metws a Phenbontarogwr (1808—1814/15) ac yn Llwynrhydowen o 1814/15—1829/30. Aeth o'r Llwyn i ardal Brechfa lle yr oedd yn byw ar ei fferm ei hun (Llainoleu) ac yma yn 1832 y cododd Gapel Cwmwrdu ar ei gost ei hun, a bu'n pregethu yma ac mewn mannau eraill hyd ei farw yn 1844. Yn y Lewin's Mead MSS. Fellowship Fund fe geir y cofnod—"1834, Aug., Grant to the Presbyt. Congr. Llwynolau, Carm." Er iddo fod yn gefnog unwaith bu farw yn ddyn tlawd ac aeth y capel a'r fferm yn eiddo i arall.

Mewn llythyr o'r eiddo Mrs. (Dr.) Lloyd, Caerfyrddin at Walter D. Jeremy, Ysw., 29 o Fedi, 1862, fe geir y manylion,—

> "Cwmmawrdu which is a chapel built by the late Rev. Wm. Rees upon his own property but was never legally conveyed to the trustees for the object of public worship."

Digon tebig mai apel am gymorth ydoedd oherwydd ceir yr addewidion : "Thomas Hughes, Neuadd, £5 ; Dr. Lloyd, £5 ; Rev. Owen Evans, £3 ; Re. Wm. Rees, £2 ; Charles James, Esq., Merthyr, £1." The amount of the purchase being £30.

Yn yr Ymofynnydd Rhagfyr 1863, td. 285 fe geir cofnod :—

> "Clywais i'r diweddar Dr. Lloyd i fod mor dda a phrynu yr hen gapel yn eiddo'r Undodwyr tra barhao'r ddaear."

Yn yr Ymofynnydd am 1864 fe geir apeliadau am ei adnewyddu ac am bregethu aml ynddo. Fe adnewyddwyd rhyw gymaint arno ac yn 1886 fe geir y Parch. John David Jones (Glynllwyd), Cribin (1861—1886) yn weinidog yma am dro byr cyn ei farw sydyn. Rhai o'r gweinidogion yn dal yn ffyddlon ond oherwydd y pellter a phopeth nid oedd graen ar Gwmwrdu. Fe'i gadewid am gyfnodau meithion a chyn i'r Ysgrifennydd fynd yno ar ran y Gymdeithas yr oedd wedi ei adael ers chwarter canrif o leiaf. Wedi oedi hir y mae ymddiriedolwyr newydd wrth y llyw ; y mae Llainffynnon wedi'i werthu a'r arian yn nwylo'r ymddiriedolwyr, a disgwylir er parch i goffa Tomos Glyn Cothi, Gwilym Marles a William Rees y defnyddir yr arian er cymhennu y Capel a'r fynwent fel na byddont yn *eyesore* ond yn hytrach yn fangre dawel a chymen yn sôn wrth genedlaethau am ymdrech i gynneu cannwyll crefydd rydd mewn bro brydferth a hynny ond odid yn rhy fore.

O.

Gandhi.

(MAHATMA neu'r ENAID MAWR).

Oh ! East is East and West is West
And ne'er the twain shall meet.

DYN du yw Gandhi ; ie, ond y mae calon wen ganddo, ac od oes haearn yn ei enaid fe wyr Dioddef pwy a'i rhoes yno. Ef yw problem yr India. Ofer ceisio ei gyfreithloni na'i gondemnio. Nid ym yn ei fyd. Ni ddeallwn mohono. Nid yw o un gwahaniaeth iddo ef beth yw ein barn amdano. Ni ddeall yntau mohonom ninnau. Dyna'r trasiedi. Ofer ceisio ei fesur a'n llinynnau mesur cyffredin mwy nag y ceisiai y Rhufeiniwr fesur Iesu. Medrwn ei watwar a'i wawdio ond nid yw ond cyffes o'n hanallu i'w esbonio. Y mae ef allan o'i fyd gyda'i bererindod ac y mae'n rhwym o wneuthur camsyniadau a'i dwg i afael yr awdurdodau ond beth yw cyfraith ac awdurdod iddo. Nid yw yng ngolwg y llywodraeth ond terfysgwr gwirion a fedr gynneu coelcerth annodd ei diffodd. Nid yw yn athrylith ym myd y meddwl. Nid yw ond dyn syml cyffredin ei gyrhaeddiadau. Dim gwell na gwaeth na channoedd o far-gyfreithwyr yn ein gwlad ninnau. Nid oes waed na thrâs uchel ganddo. Bywyd syml y meudwy a arweinia heb ddim neilltuol yn a ddywed nac a wna, eto dyma'r pôs mwyaf er dyddiau'r Apostolion.

Yn nerth ei garitor y sydd fel hud y dwyrain medr foldio cymeriad cenedl oni fydd wedi ei ddryllio ar yr olwynion cyn ei amser. Trueni ei fod wedi ei suro cyn yr amser. Fe'i surwyd ond odid gan y ffaith iddo ef—Bargyfreithiwr Prydeinig gael ei hurddio allan o'r trên yn anialdir yr Affrig gan ei adael i'w cherdded hi neu farw a hynny am ei fod yn *Indiad.* Aeth yn ol i'r India yn benderfynol o godi safle yr Indiad aristocrataidd cwrteithiedig i fod yn gyfuwch ag eiddo llafurwr amaethyddol yn Lloegr. Beied a'i beio : ni fedraf i. Medrid cael cymaint o Home Rule yn India ag y sydd eisiau arni ond gormod o bris amdano fydd dryllio enaid y plentyn mawr Gandhi. Nid oes dim tristach na gweld enaid mawr diniwed fel plentyn yn cael ei daflu i drobwll gwleidyddiaeth. Y mae mor ddiymadferth ond plentyn yw plentyn ar waethaf ei oedran.

Ni wn i nemor o hanes India ond pwy ai gŵyr ? Fe orwedd hud y dwyrain yn drwm arni. Fel yr oedd yn y dechreu felly y mae yr awr hon. Gafeilir yn ei bywyd gan draddodiad ac ni ollwng

ei afael. Fe'm gorfodir i gredu ambell dro y medrir goleuo deall dyn mewn nifer o flynyddoedd ond fod yn rhaid cael cenedlaethau cyn rhoi profiad iddo a fedr ddefnyddio'r gallu a estyn dysg iddo.

Beth bynnag am hyn y mae Gandhi y gweledydd a'r proffwyd, Rabindranath Tagore y bardd a'r llenor, Jagadish Chander Bose y gwyddonydd a Sastri y gwleidydd yn enwau byd enwog. Darllenaf waith Tagore a bum yn yr un cwmni a Bose—Undodwr gyda llaw. Darllenais "Mother India" ond carwn fynd i mewn i gyfriniaeth bywyd y wlad. Awgrymai Tagore yn rhywle fod ein meddwl ni a gormod o ol muriau a ffiniau'r wlad arno, ond y medr meddwl yr India gymryd adain a dringo'r Himalaya..

Yn y Bhagavad Gîtâ ceir allwedd i'w meddwl,—

> "Gweld un Bywyd digyfnewid ymhob peth byw
> Ac yn y Gwahanedig—Un Diwahanedig."

Nid yw pob dim ond ffurfiau gwahanol ar yr un Diwahanedig. Ni fedr angau greu gagendor ym myd realiti,. Ys dywed Tagore,—

> "Nid yw hanes dyn ond hanes ei daith i'r anwybod mewn ymchwil i sylweddoli ei hunan anfarwol—ei enaid. Trwy godiad a chwymp ymerodraethau; trwy godi i fyny bileri enfawr o gyfoeth a'u gwasgar yn ddidrugaredd ar y llwch; trwy greu corff mawr o symbolau a rydd ffurf i'w freuddwydion a'i ddyheadau a'u taflu i ffwrdd fel chwariaethau plentyndod a ninnau wedi prifio drwyddynt, trwy fathu allweddi hud i ddatgloi dirgeledigaethau'r cread a thrwy iddo daflu i ffwrdd lafur oesau i fynd yn ol i'w weithfa a gweithio o'r newydd yn rhyw ddull newydd. Ie, trwyddo i gyd, y mae dyn yn cerdded o gyfnod i gyfnod tuag at sylweddoliad cyflawnaf o'i enaid—yr enaid y sy'n fwy na'r pethau a grynhoa, y gweithredoedd a wna, y damcaniaethau a adeilada—yr enaid na luddir mo'i gwrs ymlaen gan angau na diddymdra."

Chwery a thant y sy'n goglais calon dyn, a noda ochr—enaid y bydysawd y sy'n un a'n heneidiau ni. Gwel Dduw ynghanol bywyd cyffredin—yn ei ddyletswyddau—ei lawenydd—ei dristwch a'i gyni. Yn un o'i lyfrau, Gitanjali, dywed,—

> "Gad y sianto a'r canu a chyfrif paderau. Pwy a addoli yn y gornel dywyll unig o deml a'r drysau ynghau? Agor dy lygaid a gwel nad yw dy Dduw o'th flaen.

Y mae ef yno lle mae'r llafurwr yn trin y ddaear galed a lle y mae'r hewlwr yn torri cerryg. Y mae ef gyda hwy yn yr haul a'r gawod a chuddir ei ddillad â llwch. Tafl ymaith dy fantell gysegredig a hyd yn oed fel yntau dos i waered i'r ddaear lychlyd. Tyrd o'th fyfyrdodau a gad o'r neilldu dy flodau a'th arogldarth. Ba ddrwg yw os ydyw dy ddillad yn dyllog ac wedi'u hystaenio. Tyrd i'w gyfarfod ef a saf wrth ei ochr mewn llafur a chwys dy wyneb."

Y mae angen y genadwri arnom ni a thrist fuasai gweld yr Indiad du yn dod fel cenhadwr atom gan bregethu i ni efengyl na ŵyr eglwysi'n gwlad mo'r ffordd i'w sillebu'n gywir ym mywyd cyffredin dyn. Myn nad yw ein rhyddid ni ond caethiwed yn aml a'n henwadau crefyddol a allasai fynegi y Bywyd Cyffredin yn ddim ond "tiriogaethau gwyliedig meddwl neilltuedig, ynysoedd rhagfarn a wahenir gan foroedd anghydwelediad." Ofnwn ni a gwylltwn at Angau ond iddo ef nid yw ond digwyddiad ar siwrnai ryfedd bywyd. Pob bore yn rhoi rhyw syndod newydd a disgwylia y syndod pennaf gyda gwawr y bore olaf. Byddwn erbyn hyn ond odid wedi ennill y profiad angenrheidiol a chipio oddiar fywyd y gyfrinach sy nghudd yn nhrefn fawr pethau gan yr Holl Gariad. Byddwn felly yn barod i ymuno a'r Cefnfor a ffynhonnell pob peth.

Y mae byd o wahaniaeth serch hynny rhwng Tagore a'r outcast, rhwng y palasau a'r cytiau, rhwng cyfoeth y ddaear a thlodi'r gwerinwr. Nid yw India ond bwndel o baradocsiau—golau dysg yr ugeinfed ganrif wedi torri ar genedl eithriadol o geidwadol ac mewn ystyr Gandhi yw'r Ceidwadwr pennaf oherwydd y mae ofn diwydiant arno rhag iddo niweidio'r enaid. Carai fynd yn ol i'r bywyd syml a chyffredin gynt. Siarad am *Brotection* a defnyddio'r gair yn yr ystyr wleidyddol, dyma Brotectionist wrth fodd calon nifer yn ein gwlad ein hunain a charai Gandhi i'r gwerinwr wisgo mantell neu bais o gotwm a honno wedi ei gwau nid ym Mhrydain ond gartref.

Y mae tri o bob pedwar o'r milynnau sy'n India yn gweithio ar y tir ac yn byw arno. Nid bwthyn yn y wlad na thref iddo ond pentrefi di-bendraw. Codir y pentref yn ol Katharine Mayo ar antur rywsut rywle. Cloddir am y llaid neu'r clai i'w godi ac â'r holl bentrefwyr i'r un pwll. Lladdant ddau dderyn â'r un garreg. Wrth gloddio am glai neu laid y maent yn gwneuthur eu *reservoir* a'u *swimming baths* yr un pryd.

O'r pwll yma hefyd y cwyd y plaau a'r twymynnon. Digon yw dywedyd nad oes ganddynt syniad yn y byd am a alwn ni yn *sanitation.*

Y mae'n werth aros a phendroni uwchben y broblem. Y mae India gymaint ag Ewrop i gyd a gadael Rwsia allan. Y mae'i phobl fel locustiaid a chofier y mae un o bob pump o bobl y byd yn byw yn yr India. Nid un iaith nac un genedl y sydd yma. Siaredir rhyw 250 ieithoedd yma a cheir pob math ar grefyddau yma, a rhyw un o bob trigain yn Gristionogion. Allan o boblogaeth o dros dri chan miliwn, medr rhyw ugain miliwn gael eu galw yn llythrennog a rhyw saith miliwn yn unig y sydd yn meddu pleidlais. Yr ym ni yn cwyno ac achwyn ond nid oes ond un o bob hanner cant yn meddu pleidlais yno.

Ni ŵyr y gwerinwr ond tlodi. Cofiaf glywed mam yn sôn am nhadcu yn was mawr Ffoshelyg Llandysul ac yn dyrnu'r ydlan â'r ffust am Saith Punt y flwyddyn. Ystyrid hi yn gyflog gwerth sôn amdani yn yr ardal a phawb ond odid yn rhyfeddu beth a wnai a'r holl arian. Cyfartalwyd enillion dwy filiwn a deugain yn nhalaith Madras a rhywbeth go debig oedd eu henillion i gyflog nhadcu.

Ni wn i beth i alw Hindŵaeth namyn cawdel anesboniadwy o ffilosoffi aruchel ac arferion chwithig isel anhygoel bron. Y mae Hindŵaeth yn ymwneud a bywyd dyn bob awr o'i oes ac yn gaethach ond odid na Phariseaeth gynt.

Trefnir Cymdeithas yno ar system y Caste. Awgrymir nad yw'r caste (=lliw) ond ymgais o du yr hen Ariaid cyntaf i'w cadw eu hunain yn wyn eu lliw rhag cael eu halogi gan y brodorion. Erbyn hyn y mae yna filoedd o *gastes* ac unwaith y genir dyn i'w gaste, rhaid iddo ymbriodi ag un o'i gaste, dilyn crefftau'i gaste. Ni fedr fynd allan o'i gaste na chydfwyta a neb ond o'i gaste. Y mae hynyna'n ddigon drwg ond y mae deng miliwn yn *outcastes* Y mae'n waeth na chaethwas neu anifail a phan wel Fahmin neu Uchelwr yn dynesu rhaid iddo droi o'r ffordd fawr a mynd i'r meysydd. Gellir deall y syndod pan oedd Tywysog Cymru yn yr India am iddo aros i ymddiddan a thorf o *outcastes*.

Nid oes hanner plant yr India yn prifio i oedran gwr, a thorcalonnus ydyw priodasau plant a merch ddeg oed yn weddw. Gwrthun yw'r weddw ieuanc yngolwg y byd, a gynt disgwylid iddi daflu ei hun i'r fflamau a losgai gorff ei gŵr. Fel yr oedd, nid y gwaethaf o ddau ddrwg ydoedd. Heddiw disgwylir iddi fyw neu boeni ar bryd o fwyd y dydd, a rhag iddi ymffrostio yn ei bywyd moethus gofynnir iddi ymprydio ddeuddydd yr wythnos.

Nid gwlad ddigrefydd mohoni ychwaith a saif ei duwiau dros bwerau natur. Y mae cyfriniaeth ynddi ac ysbryd defosiwn ac

addoli. Gair mawr ei chrefydd yw *Karma* a cheir y syniad hwn yn yr Efengyl "a heuo dyn, hynny hefyd a fed efe." Yn Hindwaeth golyga Karma fod bywyd presennol dyn yn ei wae a'i wynfyd yn ganlyniad ei fywyd mewn byd neu stad arall. Deellir hyn yn well o gofio y credir mewn trawsfudiad yr enaid. Nid yw Karma ond credu yn ei dynged ond fod y dynged honno yn dibynnu ar ei fywyd ei hun mewn stad cyn hynny ac nid ar ryw hap neu ddigwydd dwyfol. Mewn Bwdiaeth y ceir son am *Nirvana*. Credir yn gyffredin mai diddymdra (nothingness) ydyw ei ystyr ond fe geir awgrym gan rai o brif ysgolorion Bwdiaeth y golyga "ystad yr enaid wedi ymryddhau oddiwrth y byd presennol ac nad oedd yn hollol gartrefol yn y byd ysbrydol newydd yr oedd ynddo."

I'r bywyd cymysg a chyfrin hwn gyda'i gastes a'i outcastes, gyda'i ieithoedd dirif a'i anwybodaeth dygn, gyda'i gred mewn Karma, gyda'i dlodi anhygoel, gyda'i feddwl syml anllythrennog y daeth Gandhi fel golau yn y nos, fel proffwyd rhyw ryddid newydd, fel gwaredwr ei genedl. Ni ŵyr neb mo'i ddylanwad. Rhyw enaid Stoic sydd ynddo a'r enaid syml hwn ydyw ysbrydoliaeth yr India. Fel gallu ysbrydol syml y mae'n anwrthwynebol ond ni chyfrif unwaith yr ä India'n wenfflam olau. Ofer ceisio awgrymu na barnu dan adroddiad Comisiwn Simon ac ni fedrwn ond gobeithio yr arafa Duw lid y don nes torri o'r dydd a chilio o'r cysgodau.

Credaf mai iaith enaid India heddiw yw iaith yr hen Ysgrythur Indiaidd fel y'i rhoir gan Dagore "From Unreality lead me to the Truth: from Darkness lead me to the Light: from Death lead me to Life."

Dr. J. Gwenogvryn Evans.

"*Magnum Magna Voluisse Est.*"

"Gwell yw myned i dŷ galar nag i dŷ gwledd."

YMAE'N hawdd credu mai mewn angladd debyg i angladd Dr. Gwenogvryn Evans dydd Sadwrn diweddaf y daeth y ddihareb uchod i feddwl y "Pregethwr."

Claddwyd gweddillion Dr. Evans yng nghalon "Coron"—pentan hoyw o hen graig lwyd Lleyn o fewn ergyd saeth i ddrws tŷ ei

mai'r peth gwychaf yn y byd hwn yw ymdrech anorffwys am y gwir—boed y draul y peth y bo. Trodd oddiyno i Goleg y Presbyteriaid, Caerfyrddin a cheir ef yno yn 1869 yng nghwmni J. Morgan Gibbon, Elfed ag craill a'i syched am y gwir a gwybodaeth yn dyfnhau a dwyshau o dan arweiniad y Prifathro Hunter.

Ar ol gadael yr hen Goleg gwych bu'n weinidog am ychydig yng Nghaerfyrddin, ond symudodd yn fuan i Preston a dwyn Edith merch y Prifathro Hunter yn gymar bywyd gydag ef.

Ni wn i pa bryd y daeth William James, Llandysul ag yntau'n gyfeillion, ond cyfeillgarwch eithriadol o ffyddlon a ffrwythlon ydoedd yr eiddo hwy, fel hwnnw sy'n tyfu weithiau pan fo dau wr cadarn yn uno i ymchwil am y gwir.

Trethodd holl egnion corff ag enaid yn Preston. Sychedai am wybodaeth ac aeth yn tyfyriwr i Owen's College yn ogystal a gweinidog Preston. Bu hyn yn ormod iddo a chloffwyd ef ar y ffordd. Bu raid iddo adael Preston a mynd i orffwys i Rydychen. Tybiodd y meddygon mai'r unig orffwys gawsai o aros yno oedd gorffwys cynar yn y Fynwent. Canodd yn iach i'w deulu bach ar arch y meddyg a hwyliodd tuag Awstralia. Magodd dipyn o nerth yno a throdd yn ei ol yn 1882 yn yr hen long hwyliau y "Sobroan." Cyhoeddwyd cyfrol fach yn 1882 yn adrodd hanes y daith tuag adref a J. Gwenogvryn Evans yn un o'i golygyddion, a chlywais ef yn dweyd mai gweld ei enw ar glawr y llyfr hwn barodd iddo ddechreu cael blas ar lenydda.

Wedi cyraedd Rhydychen dechreuodd ddilyn dosbarth Syr J. Rhŷs ar y Mabinogion. Nid oedd Rhŷs yn malio seren bren y pryd hwnnw am lawysgrif Llyfr Coch Hergest er ei bod o dan yr un tô ag ef yng Ngholeg yr Iesu, ond mynnai Dr. Evans fynd i lygad y ffynnon. Gofynnodd i Rhŷs ryw ddiwrnod am gael gweld y "Llyfr Coch" ac o ateb sarrug Rhys yn taro ar benderfyniad y disgybl y daeth y wreichionen gynneuodd y lamp newydd daflodd oleuni mor llachar ar dlysau llen Cymru Fu.

Wrth edrych ar nodiadau gofalus Dr. Gwenogvryn o ddarlithiau Rhŷs ar hen iaith a chwedloniaeth y Celt y pryd hwnnw, synnais ganwaith na hudesid ef i'r un llwybr peryglus. Magesid ef ymhlith Undodiaid Ceredigion ac yr oedd ei reddf a'i ruddin yn wahanol iawn i eiddo Rhŷs. Bu'r ddau beth hyn yn darian ddiogel iddo—onibai am hynny ni chawsai Cymru byth y gyfres odidog o'r "Old Welsh Texts,' na chwaith y Reports digyffelyb ysgrifennodd i'r Manuscripts Commission ac wrth reswm collasid gwasanaeth y gwr wnaeth fwy na neb arall i arloesi'r ffordd i ni gael Llyfrgell Genedlaethol.

Dychwelodd o Melbourne yn 1882 ac yr oedd ugain mlynyd o ddarllen yn llafur caled iddo, ond ar Ddygwyl Dewi yn 1887 cyhoeddodd gyfrol gyntaf Llyfr Coch Hergest. Gwelwyd ar unwaith fod rhywbeth eithriadol wedi digwydd. Wele wr yn darganfod maes newydd ac yn ei drin yn well nag y triniasai neb faes tebig o'r blaen a Chymru bellach yn dangos i wyr profiadol Ewrob sut i weithio. Y gyfrol gyntaf o'r Llyfr Coch yw'r flaenaf o gyfres lyfrau enwocaf Cymru, a phatrwm goreu gwaith o'r fath. Y mae'r cyfrolau yn deulu pendefigaidd heddyw a phob un yn son yn eu ffyrdd gwahanol am ymdrech ddiarbed i chwilio am y gwir.

Dysgodd ddarllen llawysgrifau a dysgodd eu hargraffu yn well na neb. Ond nid dwy saeth yn unig oedd yng nghawell Dr. Gwenogvryn. Efe luniodd Tremvan a'i godi a gŵyr pawb a'i gwelodd ystyr hynny.

Yr oedd ei gyfeillgarwch a Dr. Martineau yn un o berlau ei fywyd a dichon fod Prydain dan ddyled iddo ef am gymell y gwr mawr hwnnw i gyhoeddi ei gyfrol o weddiau.

Yr oedd yn wr o gynneddfau grymus a chymeriad eithriadol iawn. Gwelais ef dan bob math o amgylchiadau—gwyliais ef lawer gwaith yn adrodd straeon nes anghofio amser a gweld yr haul yn euro'r Wyddfa yn y bore. Gwelais ef mewn llys gwlad pan oedd gwŷr gawsai gymwynasau mawrion ganddo yn hawlio ychwaneg. Gwelais ef pan oedd gwybed gwybodaeth yn brathu lidiocaf, a gwelais ef pan oedd penefigion gwybodaeth yn dod yn ddisgyblaidd fel plant at ei draed i geisio dysgu'n ostyngedig ganddo. Gwelais ef pan oedd taeogion yn ymddwyn yn daeogaidd ato'n ddiachos a gwelais ef pan oedd ysgolheigion preiffion pendefigaidd yn blysio am ei gymdeithas. Gwelais ef yn codi'r oen bach i'w fynwes a gwelais ef mewn priodas ag angladd. Gwelais ef pan na fedrai weled cam o'r llwybr a gwelais ef a'r llwybr i ben draw'r daith yn oleu—ond ni welais ef erioed yn cloffi rhwng dau feddwl mewn ymdrech am y gwir ac ni welais ei droed yn llithro wrth ddilyn y gwir hwnnw.

Rhoddodd Prifysgol Rhydychen a Chymru eu anrhydedd goreu iddo ond ei fwynhad pennaf oedd dal y warthol i ryw un ieuanc i fynd i'w hynt i chwilio am y gwir, a'r anrhydedd uchaf oedd gwrogaeth rhywrai felly.

Rhyw fis Mawrth danfonwyd llyfr bach yr Athro Bury iddo ar "History of the Freedom of Thought" a gair y tu fewn yn galw'r llyfr yn "llyfr Cenedliad John Gwenogvryn Evans." Cadwodd

y llyfr ar ei obennydd bob nos hyd y diwedd ac ychydig cyn canu'n iach dywedai "Its the neatest thing you ever did."

Dysgodd yn llwyr wers fawr Pontshan a Llanwennog a Chaerfyrddin ac wrth wylio'r cymeriad praff yn dadblygu gwelid mai'r wythien amlycaf ynddo oedd ymchwil diflin am y gwir heb gyfrif y draul.

"*Magnum Magna Voluisse Est.*"

T.L.

Gwerth Eisteddfod i Ddiwylliant.

DIDDOROL iawn fyddai dilyn cwrs yr Eisteddfod ar hyd y blynyddoedd hyd nes cael gafael yn ei tharddle, ynghyd ag enwau aelodau y pwyllgor ac enwau y beirniaid cyntaf, ond gan nad oes un sicrwydd pa bryd nac ym mha le y cychwynwyd hi, amhosibl ydyw hyn o orchwyl.

Tueddir fi i gredu mai yng Nghymru y ganwyd hi, ond gan nad beth am le ei genedigaeth, Cymru sydd wedi siglo ei chrud a'i magu i fyny.

Beth amser yn ol sylwn ar y nodiad canlynol yn un o newyddiaduron Llundain: "A very successful *Eisteddfod* was held in Bedfordshire" ac yn y blaen.

Mae'r frawddeg uchod yn awgrymiadol iawn. Dengys nad oes gan y Sais enw mwy cydnaws ar y sefydliad na'r enw Cymreig a braidd na theimlwn fy hun yn ymchwyddo gyda'r syniad mai'r Cymro a'i bedyddiodd, beth bynnag. Gan nad beth am le ac amser, sicr yw mai diwylliant oedd y wreichionen a gynheuodd dân ar ei hallor.

Ni wyddom ni heddiw faint ein dyled i'r hen dadau duwiolfrydig am sylfaenu y fath sefydliad bendithiol. Dengys eu sefydliadau feddwl a thuedd yr oes, ac nid llai na meddwl pur, a thuedd lân, a syniad aruchel a fedrai roi sylfaen i'r Eisteddfod, ac am fod ei safon yn foesol, annodd dirnad ei dylanwad ar fywyd ac arferion y genedl ar hyd yr oesau.

Beth fyddai cyflwr llenyddol, barddonol a cherddorol Cymru heddiw oni bai am yr Eisteddfod.

Mae'n bosibl am lawer o feirdd goreu ein gwlad, er fod barddoniaeth yn ffynnon loew yn byrlymu yn eu heneidiau, na fuasai'r ffrwd erioed wedi llifo dros y ceulannau oni bai am gymhelliad yr Eisteddfod. Y fath golled fyddai hynny i'r bardd ei hun, a hefyd i'r genedl yn gyffredinol.

Nid y gwobrau a'r arian a'r clod ar lwyfan yr Eisteddfod sydd o bwys, ond y gwaith o ddiwyllio a thrwsio a pherffeithio'r meddwl a'r enaid ar gyfer gorchwyl aruchel, canys pan fo dyn yn dal cymundeb a'i enaid, mae yn agos iawn at ei Dduw y pryd hwnnw. Cyfyd uwchlaw pethau bach y ddaear i awyrgylch bur a sanctaidd, ac wrth roi'r profiad hwn i'r byd mewn barddoniaeth, y mae megis yn taenu iechyd moesol dros ei gyd-fforddolion. Mae Emyn weithiau yn foddion iechydwriaeth i bechadur.

Mae'r un ffaith yn wir eto am lenyddiaeth. Mae'r Eisteddfod wedi magu llu o gewri llenyddol. Ryw dro dyna ddyn ieuanc yn gwneud ymgais ar draethawd neu ryw ysgrif arall ar gyfer yr Eisteddfod. Ni chaiff y wobr, ond cymeradwyaeth yn unig, a bydd hyd yn oed hyn yn galondid iddo, a rhydd iddo fwy o ffydd ynddo ei hun. A ati i ddarllen llenyddiaeth bur a llyfrau adeiladol, ymeanga ei feddwl, goleua ei syniadau a phura ei iaith.

Y tro nesaf daw ei ddiwylliant ag ef yn fuddugoliaethus i'r llwyfan. Argreffir ei waith, a phura nid yn unig ei fywyd ei hun, ond bydd pob darllenydd o'i ysgrif yn teimlo dylanwad ei ragoriaethau, ac efallai y bydd yn symbyliad i ereill i ddilyn ei lwybrau. Gogoniant dyn ydyw byw i arall. Felly mae'r hwn sydd yn dylanwadu yn fendithiol ar ei gyd-ddyn yn cyrraedd amcan uchaf ei fodolaeth.

Gyda golwg ar gelfyddyd a chrefft eto, gofynnant y goreu sydd mewn dyn. Mae yna ddarlun yn crogi ar fur ein tŷ ni, darlun syml ddigon—nid yw na "Rembrandt" na "Chonstable." Ynddo fe welir dau fryn, afon yn rhedeg wrth eu traed, a'r gwartheg yn ymlwybro yn hamddenol, un ar ol y llall tuag at yr afon er disychedu eu hunain yn y dyfroedd tawel. Ond gorffwys swyn y darlun yn y gosodiad, sef natur ar godiad haul gyda niwl cynnar fore yn hongian uwchben y bryniau a'r afon, gan greu rhyw agwedd gyfrin ar bob tu. Mae'r pictiwr yn awgrymu llawer mwy i mi nag a welir ar yr wyneb. Mae'r paentiwr wedi astudio natur mor drwyadl nes bod ei enaid yn ymddangos yn y niwl, a dychmygaf ei weled ar ben y bryn a'i wyneb yn disgleirio fel Moses gynt, am ei fod mewn cymundeb a'i Dduw. Bob tro yr edrychaf ar y pictiwr hwn, ni phaid a dwyn rhyw hedd a thangnef i'm mynwes.

Nid oes eisieu gwell engraifft o ddylanwad dyn diwylliedig ar fywyd ei gyd-ddyn. Mae'n bosibl mae ar lwyfan yr Eisteddfod y derbyniodd yr arlunydd hwn ei eneiniad. Pwy wyr?

Sylwaf fod rhai Pwyllgorau yn anwybyddu celfyddyd a chrefftwaith yn llwyr. Dylid cofio na all pawb ganu ac adrodd, a thrwy amddifadu yr arlunydd a'r crefftwr o'r cyfle i ddatblygu eu talentau, mae'r Eisteddfod yn syrthio yn fyr o'i delfryd.

Yn olaf (ond nid y lleiaf ei bwys) sylwn ar gerddoriaeth. Beth fyddai safon cerddoriaeth yn gorawl, yn offerynnol ac yn ganu unigol yng Nghymru heddiw oni bai am yr Eisteddfod.? Tebyg na fuasai llawer o gantorion enwog yn y wlad heddiw. Ni fyddai neb wedi mynd i'r drafferth i drin a chwrteithio eu lleisiau. O ganlyniad, byddai'r wlad yn dlotach a safon cerddoriaeth yn is yn gyffredinol. Hefyd ni freuddwydiai un arweinydd corawl fyned a'i côr i lwyfan yr Eisteddfod heb berffeithio ei hunan a'r cantorion. Yr un fath wedyn gyda'r chwareuwyr offerynnau, hawlia eu goreu, ac nid yw goreu neb yn bosibl heb ymdrech a chwrtaith.

Mae gan gerddoriaeth ddylanwad cryf ar y teimlad dynol, a pho buraf y bo, cryfaf ei dylanwad. Credaf fi mae dyna beth sydd wedi gwneud "Byddin yr Iachawdwriaeth" yn gymaint o allu yn y byd. Nid yw "pobl y gwter" fel eu gelwir yn clywed un gerddoriaeth grefyddol ond yr eiddynt hwy, a diamau eu bod yn teimlo rhyw gymhelliad yn swyn y miwsig, canys dyn yw dyn beth bynnag ei gyflwr.

Mae'n ddyletswydd arnom i annog ein pobl ieuainc i gymryd diddordeb yn yr Eisteddfod, pe bai ddim ond er mwyn diogelu yr Iaith, oherwydd mae rhyw don o'r iaith Saesneg wedi dod dros ein gwlad yn ddiweddar, ac os cyll Cymru ei hiaith, fe gyll ei chrefydd a'i harferion hefyd. Os felly y bydd, credaf y bydd yr hen dadau duwiol yn aflonyddu yn eu beddau, y rhai a ymdrechodd hyd at waed i gadw Cymru yn Gymreig ac yn grefyddol. Hwy a lafuriodd, a ninnau a aeth i mewn i'w llafur hwy. Oni wnawn ni ymdrech deg yn ein dydd i gadw'r winllan yn bur, pa reswm a rown dros y methu.?

Ymdrechwn i gadw'r iaith estronol draw, oherwydd tuedd iaith estronol yw dwyn arferion estronol yn ei chysgod. Nid oes gennyf fi ddim yn erbyn un iaith fel y cyfryw. Hoffwn pe medrwn siarad iaith pob gwlad, a hynny yn llithrig, ond pe byddai hynny yn bosibl, fy arwyddair fyddai "Iaith fy Mam yn flaenaf."

Yr wyf yn ofni weithiau ein bod wedi derbyn ein breintiau yn rhy rwydd. Bryd arall, wrth feddwl am yr ymdrech sydd wedi ei wneud i gael y Gymraeg i'n hysgolion dyddiol, teimlaf fod ysbryd y tadau yn fyw eto, ac iechyd yw gweled y brwdfrydedd a ffynna ynglyn a'r Eisteddfod Genedlaethol y flwyddyn nesaf. Mae'n amlwg eisoes fod cyfleu yn cael ei gynnyg i bob un sydd ag unrhyw fath o dalent ganddo i'w defnyddio a'i datblygu, ac yn ystod y gaeaf nesaf gobeithio bydd ein pobl ieuainc yn treulio eu horiau hamdden i baratoi rhywbeth sylweddol ar gyfer yr Eisteddfod, yn hytrach na cherdded yr heolydd yn ddibwrpas. Bydd hynny yn fendith iddynt, oherwydd y mae gan yr Eisteddfod ei swyn.

Gŵyr pob ymgeisydd nad hawdd rhoi fyny ar ol dechreu cystadlu. Daliwn ati, cefnogwn hi. Peidiwn â gadael i Gymru fynd yn "Wlad y Ddawns," a'r "rhedegfeydd ceffylau," a'r "bandiau jazz." Mynnwn ei chadw yn "Wlad yr Eisteddfod" a'r "Bregeth" ac yn "Wlad y Gân."

A.R.

Y Parch. Evan Lewis, Cilgwyn, Ceredigion.

(Parhad.)

CAI'R cyfarfodydd wythnosol ei gefnogaeth wresog, a mynychai hwynt yn rheolaidd oni fyddai'n absennol o'i gartref. Hysbysir y gellid gweld Wesleaid, Annibynwyr, Bedyddwyr, Undodwyr, Methodistiaid, Eglwyswyr ac eraill heb fod yn aelodau crefyddol gyda'r un enwad yn ei wrando, yr hyn a ddengys ei allu i dynnu pob math ar sefyllfa o bobl i'w wrando. Yr oedd yn bregethwr hyawdl dros ben yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Symudodd o Olmarch Isaf i Lanllyr tua'r flwyddyn 1825 neu 1826, lle y ganwyd dau o'i blant ieuengaf sef Mary Ann a Richard.

Er fod Evan Lewis yn brysur gyda'i ddyletswyddau gweinidogaethol eto cafodd amser i sgrifennu llawer ond ni chyhoeddodd ond y rhan gyntaf o'i lyfr "Rhifyddiaeth yn Rhwyddach" yn y flwyddyn 1828, ac Evans, Caerfyrddin oedd y cyhoeddwr a hwn i danysgrifwyr yn unig o'r rhai yr oedd llawer ond ni allaf ddweyd paham na chyhoeddwyd y rhannau ereill o'r llyfr.

Sgrifennodd englyn o'i gyfansoddiad ei hun yn ei ragymadrodd i'r llyfr fel y canlyn :—

Yn foddus mi a fyddaf—yr eiddoch
I raddau helaethaf ;
Eich lles a wych wyllysiaf
A'ch gwasanaethu'n gu a gaf.

Y mae ei lyfrau ereill "Dydd y Pethau Bychain," ac "Hanes Cilgwyn" ond nid un Philip Pugh, ac yn y blaen mewn llawysgrif, ac yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth, a gresyn na ellid eu cyhoeddi.

Yr oedd Evan Lewis yn gyfaill, yn adnabod ac yn gyfarwydd iawn a'r bardd adnabyddus y Parch. Daniel Evans (Daniel Ddu o Geredigion). Cyfansoddodd yr olaf ddeuddeg o englynion mewn canmoliaeth o'r llyfr "Rhifyddiaeth yn Rhwyddach" ac y mae un ohonynt fel y canlyn :—

"Gymry, down a rhown yn rhydd—i Lewis
Oleuaf fawl beunydd ;—
A'r "Rhifyddiaeth" daeth i'n dydd
Gwawl addysg fel goleuddydd."

Bu Evan Lewis yn hir gyfeillgar a bardd Cymreig enwog arall, y Parch. David Davis (Davis Castell Hywel) a chyda'r Parch. Robert Roberts o Langeitho, y gweinidog enwog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd.

Teithiai ar gefn ceffyl oddeutu Sir Aberteifi gan bregethu yn Gymraeg ac yn Saesneg yn ystod ei weinidogaeth faith o bedair blynedd a deugain yng Nghilgwyn a Llangybi, ac er ei fod yn cael ei wahodd beunydd i bregethu oddicartref ni dderbyniai y gwahoddiadau ond anaml am fod yn well ganddo aros gyda'i braidd ei hun. Dyn prysur iawn ydoedd a gweithiai'n galed yn fore ac yn hwyr hyd ddiwedd ei oes.

Ein Pwlpudau Gwag.

Cynhaliwyd Pwyllgor i ymdrin a'r mater uchod yng Nghapel y Bryn nawn Llun, Mawrth 17. Etholwyd Mr. Thomas Davies, Capel y Bryn i'r gadair.

Wele awgrymiadau'r Pwyllgor :—

1.—Ein bod yn apelio at yr oll o'r Eglwysi perthynol i'r Gymdeithas pan am ryw achos y byddant wedi colli eu gweinidog, ar fod iddynt wneud hynny yn hysbys i ysgrifennydd y Gymdeithas yn ddioedi.

2.—Fod y Gymdeithas yn ymrwymo i wneud yr oll a all i gynorthwyo Eglwysi heb weinidogion ac i'r diben o wneud hynny'n effeithiol ei bod yn penodi Pwyllgor llawn neu nifer fechan o gynrychiolwyr i ymweld ac ymgynghori a'r Eglwysi hynny.

3.—I hwylysu'r gwaith uchod ynghyd a llwyddiant cyffredinol ein Heglwysi y dylesid penodi Pwyllgor gweithiol yn cael ei wneud i fyny o'r gweinidogion ac un cynrychiolydd o bob Eglwys ac fod y Pwyllgor hwnnw i gyfarfod o leiaf unwaith bob chwarter.

4.—Fod yr awgrymiadau uchod i ymddangos yn "Yr Ymofynnydd" fel y gall yr Eglwysi gael cyfle i'w hystyried erbyn Pwyllgor y Pasc.

Marwgofion.

Dydd Mawrth, Chwefror 18, yn 80 mlwydd oed, Hannah, gweddw y diweddar Lewis Williams, Banc-y-ffynnon, Craig Cefnparc. Deallwn i'w chymar ei blaenu hi rhyw dair blynedd ar hugain yn ol. Cofiwn ef yn dda yn y lofa, yn weithiwr debeulaw iawn, ac yn un o amryw frodyr glan a golygus yr olwg arnynt. Rhyfedd fel y daw'r gorffennol yn ol i ni. Mae'r cyfan, pob digwyddiad yn fyw o'n blaen. Yr oedd ein hannwyl fam ymadawedig yn hynod am ei bywyd cyson, gwastad a thawel. Bywyd yn orlâwn o ysbryd ac anianawd teuluol, a chartrefol; a goruchwylion y tŷ a'r gofalon cyson a pharhaus yn dod bob bore, a phob dydd, trwy yr oes; ac yna, daw *item* olaf rhaglen bywyd,—croesi'r ffin i randir y nef. Y mae ar ol i alaru'r golled, bedair merch, a phedwar mab, a'r oll ohonynt yn ddiolchgar am gael cadw eu mam am gynifer o flynyddoedd,—ymhell tuhwnt i'r addewid. Cymerodd yr angladd le y Sadwrn canlynol. Claddwyd wrth Gellionnen. Gwasanaethwyd gan y Parch. D. G. Rees, Trebanos; a chynorthwywyd gan y Parchn. T. M. Roderick, Cwmgors; B. Lewis, Salem; D. R. Jones, Elim; E. S. Roberts, Pantycrwys; a J. Crwys Williams, Abertawe.

Chwefror 20, yn 63 oed, bu farw Mrs. Jane Davies, gwraig Mr. David Davies, 4, Llwynon Terrace, Pen-y-bank, Amanfor. Genedigol ydoedd o Bontsian, Llandysul ond wedi byw yn Amanford ers ugain mlynedd a chyn hynny yn Y Coed, Abergwili a Phenralltnewydd, Llanybyther. Gadawodd i alaru ar ei hol wr a dwy ferch briod. Claddwyd y dydd Mercher dilynol yn *Semetri* newydd Amanford. Gwasanaethwyd gan y Parchn. Nantlais Williams, Amanford; E. B. Powell, Castellnedd a W. Williams, Bethesda, Tycroes. Y mae llawer o'i pherthynasau yn aros yn yr hen fro ac yn dal yn dyn i hen draddodiadau'r teulu. Nodded y nef a fyddo dros y teulu.

Sabath, Chwefror 23, yn 73 oed, Ann, gweddw y diweddar Griffith Thomas, Brynhyfryd, Graig Road, Trebanos. O sylwi ar fywydau hynafgwyr a hynafwragedd, dygir ni bawb i ystad o feddwl a sylweddoliad o'r ffaith galed ac oer, ein bod ninnau oll yn nesu ac yn wynebu ar yr un orsaf—gorsaf henoed—un o orsafoedd rheilffordd bywyd. Anodd y bydd i ni anghofio Ann Thomas, yn herwydd dug hi enw da am ei pharodrwydd a'i charedigrwydd, a'i chroeso parod a serchus, a phob amser felly pan ddigwyddem alw heibio iddi. Nychodd lawer yn awr ac eilwaith, ac weithiau ymollyngai dipyn i anobaith, a thrannoeth, byddai hi wedi ymfywhau wedyn,—rhyw drai a llanw felly. Ac er y cyfan i gyd, llwyddodd i ddod i dalar tri ugain a phedair ar ddeg mlwydd oed. Goroesodd ei hannwyl briod ychydig gydag un mlwydd ar ddeg, ar ol byw bywyd hapus. Hannai heb fod yn nepell o'r Betws, yn Sir Gaerfyrddin, a gedy lawer o berthynasau agos a phell, ynghyd ag un mab yr hwn sy'n byw gerllaw i dref Abertawe. Claddwyd wrth Eglwys y Garnant y dydd Iau canlynol. Gwasanaethwyd yn y tŷ annedd gan y Parch. D. G. Rees, Trebanos, ac yn yr Eglwys ac ar lan y bedd gan y Ficer, y Parch. W. A. Jones, Garnant.

Mawrth 4, David Jones, 50, Janet Street, Caerdydd, yn 60 mlwydd oed. Claddwyd yr Iau dilynol yn Mwlchyfadfa. Yn absenoldeb y Gweinidog gwasanaethwyd gan y Parch. W. D. Davies (E.), Talgarreg. Saer oedd wrth ei alwedigaeth a mab i'r diweddar Daniel a Hannah Jones, Waunfadfa, dau fuont ffyddlon iawn ym Mwlchyfadfa yn eu dydd. Gadawodd David Jones ei ardal enedigol yn ieuanc er mynd allan i'r byd i ennill

ei fara. Credwn er hynny fod i'r achos yn y Bwlch lo cynnes yn ei galon. Gadawodd ddau frawd a nifer o berthynasau ereill i weld ei eisiau.

Mawrth 7, John Thomas, 2, Capel Cynon, Llandysiliogogo yn 79 oed. Claddwyd y Mercher dilynol ym mynwent Pisgah, Talgarreg, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. Un o deulu Nantgwydde oedd John Thomas: teulu fu'n flaenllaw iawn gyda'r canu ym Mwlchyfadfa flynyddoedd lawer yn ol. Yr oedd pob aelod o'r teulu'n fedrus gyda'r canu a dywedir fod eu lleisiau yn rhai cywir iawn. O'r teulu lluosog un yn unig sy'n aros sef Mrs. Eliza Jones, Portland House, Llanbedr. Bu John Thomas yn byw yn Ffynnongoeg am flynyddau ac fel John Ffynnongoeg yr adnabyddid ef gan lawer hyd y diwedd. Arweiniodd fywyd llafurus a thawel ac enillodd barch llawer drwy hynny. Estynwn ein cydymdeimlad i'w ddau fab a'i chwaer ac ereill sy'n cwyno ei golli.

Ar y 18fed o Fawrth bu farw Stephen Jones, baban annwyl Joseph a Sarah Jones, Cilcennin, gynt o Rhydfydyr, Felinfach, yn 10 mis oed, er galar a siom i'w rieni a'r plant eraill. Byr a brau y bu bywyd y bychan, er hynny ymgysured y tad a'r fam a'r plant ar y gwirionedd agos a chysurlawn mai "eiddo'r cyfryw rai yw Teyrnas Nefoedd." Sadwrn dilynol claddwyd yng Nghapel y Groes pryd y gwasanaethwyd yn y tŷ ac yn y gladdfa gan y Parch. D. Conwil Evans, Rhydygwin.

Mawrth 20, yn 28 oed, bu farw D. Tom Davies, Troedrhiw, Cwrtnewydd, mab Mr. a Mrs. Davies, Brynhogfaen, a priod annwyl Mrs. Sally Davies, wedi cystudd byr ond caled o'r *Pneumonia*. Brawychwyd pawb o glywed y newydd a'r ardal i gyd yn rhwym gyda'r teuluoedd trist. Adwaenwn i Tom er yn blentyn ac nid oedd eisiau cymeriad purach. Bachgen tawel, distaw ydoedd heb ddweyd rhyw lawer, ond eto yn gymwynasgar a siriol. Y mae troion rhagluniaeth yn anesboniadwy a thrueni rywsut oedd cymryd Tom gan adael priod ieuanc a dau amddifad yn unig i wynebu bywyd. Y mae dyrnod fel hon yn parlysu ardal ac nid oes dim amdani ond distewi a mynd yn fud. Y dydd Llun dilynol daeth torf anarferol o luosog ynghyd i dalu'r gymwynas olaf iddo. Gwasanaethwyd yn Nhroedyrhiw gan y Parchn. E. Glyn Edwards, Talog ac E. O. Jenkins, Llwynrhydowen, yn y Capel gan y Parchn. D. Jones, Drefach a S. Evans Bowen (y Gweinidog), ac ar lan y bedd gan y Parchn. Vaughan Pughe, Cwrtnewydd a T. Oswald Williams, M.A., Llanbedr. Nid oedd dim i'w ddywedyd ond gofyn am nerth i blygu dan yr ystorm. Y mae'r hen frawd David Jones (tadcu y weddw ieuanc) yn aros ar yr hen aelwyd bron ar drothwy canrif ac yn teimlo o gymryd gwr ieuanc 28 oed. Y mae'r tad a'r fam a'r teulu yn drist iawn o'i golli ac y mae'r weddw a'r ddau fach a holl gylch y perthynasau yn flin ac yn hiraethus ac nid oes i minnau ond eu cymeradwyo i fyny i Dduw gan eu hatgofio (er nad oes angen) fod Tad yr Amddifad a Barnwr y Weddw eto'n fyw.

Nodion yr Eglwysi.

Undeb Cymanfa'r Pwnc Llanbedr, Caeronnen, Capel y Groes a Galltyplaca.—Teimlid ym Mhwyllgor y Gymanfa uchod na chai'r plant chwarae teg ac awgrymwyd maes arbennig iddynt. *Plant dan ddeg oed y pedair ysgol*: Emyn—"Gweddi Plentyn" a dameg y Darn Arian. *Plant dros ddeg oed*: Dameg y Samaritan Trugarog. Disgwylir ar i'r gwahanol ysgolion baratoi'r plant gogyfer a'r Gymanfa yn y Maes Llafur a nodir uchod.

BWLCHYFADFA. — I ddirwyn gwaith tymor y gaeaf i'r pen cynhaliodd Cymdeithas Ddiwylliadol y lle yma "Social Tea" nos Lun, Mawrth 10. Daeth yr aelodau ynghyd yn lled gryno a chafwyd noson ddiddorol. Darparwyd y wledd gan foneddigesau'r Gymdeithas a diolchwyd yn gynnes iddynt am hynny gan Mr. Tom Griffiths, Fadfa a Mr. Johnnie Jones, Crugeryr. Cafwyd amryw areithiau yn ystod yr hwyr a thystiolaeth pawb oedd fod y cyfarfodydd yn ystod y gaeaf wedi bod yn flasus a buddiol.

LLWYNRHYDOWEN.—Cynhaliwyd Gwyl De a Chyngerdd blynyddol yr Ysgol Sul yn y lle hwn nawn a hwyr Gwener, Mawrth 21. Dipyn yn llaith oedd yr hin er hynny daeth tyrfa ynghyd a chafwyd amser llon a difyr. Rhoddwyd y wledd gan Mr. a Mrs. William Thomas, 156, Shepherds Bush Road, Llundain, a gwledd odidog oedd ymhob ystyr. Danfonwyd y teisenau lawr o'r brif ddinas—11 o wahanol fathau a phob un o'r rhai hynny am y gorau. Er yn byw yn Llundain un o blant y Llwyn yw Mr. Thomas—mab Penbanc, neu a rhoi yr hen enw arno Wernhir, sef y tŷ y dechreuodd Jenkin Jones, Llwynrhydowen bregethu ynddo yn 1726. Er nad yw Mrs. Thomas o'r Llwyn cydsyniodd yn hollol a'i phriod i roi y wledd. Teimlwn yn ddiolchgar iddynt am yr arwydd yma o'u serch at y lle. Yn yr hwyr cafwyd Cyngerdd y Plant o dan lywyddiaeth Mr. Griffith Davies, Brynclettwr. Beirniadwyd y canu, etc., gan y cymydog parod Mr. D. Davies, Sychdy. Cafwyd rhaglen hwylus a gwobrwywyd y plant â llyfrau ac anrhegion ereill am gadw'r ysgol.

URDD Y BENYWOD—Nos Iau, Mawrth 27 y cawd Social pen tymor Urdd y Benywod ym Mrondeifi er cau tymor llwyddiannus, ac yr oedd rhyw bedwar ugain a deg yn bresennol. Treuliwyd noson lawen wrth y byrddau a dug pob aelod waith y tymor i'r Social gan ei throi yn rhyw fath ar arddangosfa o'r gwaith. Dywedai'r gwaith na threuliwyd tymor difudd. Diolchwyd i bawb a fu garediced a dod i gynorthwyo gan y Llywydd, Mrs. Oswald Williams. Nid oedd hyd yn oed hynyna'n ddigon oherwydd rhaid oedd gwahodd Mrs. Jones, Y Bryn, Llanybyther i roi *demonstration* i gloi'r tymor. Yr ŷm wedi bod yn ffortunus yn ein darlithwyr a'r demonstrators—pawb yn barod i ddod a chynorthwyo a chredwn fod yr Urdd yn barod i ddechrau ar waith y tymor nesaf yn yr ysbryd iawn.

URDD Y BENYWOD.—Fe anfonir i mi yn fisol "Lythyr Urdd y Benywod." Bum yn rhoi dyfyniadau ohono yn yr YMOFYNNYDD ond ni wyddwn a oeddent yn ateb y diben. Fe gaf ar ddeall o Lundain fod y Benywod wedi gweld eisiau fy nodiadau. Fe garwn gael barn y benywod ar y mater. Nid diffyg gofod mo'r esgus ond credwn ni fod llawer yn gweld y Llythyr yn Saesneg ac nad oedd alw dyfynnu. Ar y llaw arall nid oedd llawer ohono ond hysbysiadau am y Cwrdd Blynyddol Mehefin y 13, a manion cyffelyb o Leeds a Lerpwl. Fe garwn i farn y benywod ar y mater er gweld a ydyw yn werth y drafferth. Os ydyw yn werth, y mae'n werth i Urdd y Benywod o bob Capel ysgrifennu ataf. Cawn weld. Arosaf tan YMOFYNNYDD Mai.

DUKENFIELD.—Diolch am gael Adroddiad Blynyddol yr Hen Gapel Dukenfield. Sonia'r Adroddiad am welliantau a wnawd ac yr own yn llonni o ddarllain "The Chapel-keeper reports that there are 423 Seatholders on the Chapel Roll." Nid oes fanylion yn yr Adroddiad ond y mae sôn am grynhoi £73/7/10 (Sunday School Sermons) yn peri i mi agor fy llygaid. Rhagor na hynyna yr wyf yn caru y frawddeg glo :—"We have a beautiful Chapel, good music and a Minister who never disappoints us in the excellence of his addresses." Y mae gair felly am weinidog o Gymro yn galondid.

J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

JOHN E. JONES

(CERTIFICATED).

JEWELLER, SILVERSMITH & OPTICIAN,

1, WIND STREET, LLANDYSSUL.

WHAT BETTER PRESENT
CAN YOU GIVE THAN A

GRAMOPHONE?

A GIFT THAT WILL GIVE PLEASURE AND ENJOYMENT THROUGHOUT THE YEAR.

AGENT FOR "HIS MASTER'S VOICE" AND ALL LEADING MAKES OF GRAMOPHONES AND RECORDS.

:: Bradford House, Llandyssul ::

FOR SPRING AND EARLY SUMMER.

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN'S WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

E. LLOYD JONES.

OS YDYCH AM RODDI . .

Anrheg am Ffyddlondeb i'r Ysgol Sul

. . A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

		s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur	...	7	0
Lledr ... ... eto	...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto	...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

		s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	...	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	...	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

: : J. D. LEWIS, : :

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.